

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3151 (Cy.268)

TAI, CYMRU

**Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol
1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2007**

Gwnaed - - - - 27 Tachwedd 2007
Yn dod i rym - - 30 Tachwedd 2007

Mewn perthynas â Chymru, yr awdurdod cenedlaethol priodol at ddibenion arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983(1) yw Gweinidogion Cymru(2) ac maent yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny;

Yn unol ag adran 2A(5) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff hynny yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn gynrychioliadol o fuddiannau y mae'r Gorchymyn yn effeithio'n sylweddol arnynt ac â'r cyfryw bersonau eraill ag yr oeddynt o'r farn eu bod yn briodol; Cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 2A(6) o'r Ddeddf honno ac mae wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(3);

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 30 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r diwygiadau a wneir i Atodlen 1 i Ddeddf 1983 gan y Gorchymyn hwn(4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gytundeb y mae'r Ddeddf honno'n gymwys iddo ac sy'n ymwneud â gosod cartref symudol yng Nghymru.

(3) Yn ddarostyngedig i erthygl 4, mae'r diwygiadau hynny'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw gytundeb o'r fath a wnaed ar unrhyw adeg cyn 30 Tachwedd 2007 yn ogystal ag mewn perthynas â chytundebau o'r fath a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

-
- (1) 1983 p.34. Mewnosodwyd adran 2A gan adran 208(1) o Ddeddf Tai 2004 (p.34). O ran Cymru, yr awdurdod cenedlaethol priodol yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 5(1) o Ddeddf 1983, fel y'i diwygiwyd gan adran 206(3) o Ddeddf 2004.
- (2) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi
- (3) Mae paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) yn nodi y dylai unrhyw gyfeiriad at Senedd gael ei ddarllen fel cyfeiriad at y Cynulliad.
- (4) Mae'r diwygiadau hyn yn ychwanegol at y rhai a wnaed gan adran 207(1) o Ddeddf Tai 2004.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Cartrefi Symudol 1983.

Diwygio Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983

2.—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (telerau sydd ymhlyg mewn cytundebau safleoedd) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5 (terfynu gan y perchennog gan nad yw cartref symudol yn cael ei feddiannu'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa), yn lle'r geiriau o “the court” i'r diwedd, rhodder—

“the court—

- (a) is satisfied that the occupier is not occupying the mobile home as his only or main residence; and
- (b) considers it reasonable for the agreement to be terminated.”.(5)

(3) Ym mharagraff 6 (terfynu gan y perchennog oherwydd effaith andwyol cartref symudol ar amwynder y safle oherwydd ei gyflwr)—

(a) yn is-baragraff (1)—

- (i) yn lle “at the end of the relevant period” rhodder “forthwith”;
- (ii) ar ddiwedd paragraff (a) yn lle “; or” rhodder “; and”; a
- (iii) yn lle paragraff (b) rhodder—

“(b) the court considers it reasonable for the agreement to be terminated.”;

(b) hepgorer is-baragraff (2); ac

(c) yn is-baragraff (3)—

- (i) ym mharagraff (a) hepgorer “or (b)”;
- (ii) ym mharagraff (b) yn lle “would result in neither of those paragraphs applying to it” rhodder “would result in sub-paragraph (1)(a) not applying to it”.

(4) Ym mharagraff 8 (gwerthu cartref symudol i berson a gymeradwywyd gan y perchennog)—

(a) yn lle is-baragraff (1C) rhodder—

“(1C) The owner may not give his approval subject to conditions.”;

(b) yn lle is-baragraff (1D) rhodder—

“(1D) If the approval is withheld, the notice under sub-paragraph (1B) above must specify the reasons for withholding it.”;

(c) yn is-baragraff (1E) yn lle “sub-paragraphs (1B) and (1C)” rhodder “sub-paragraph (1B) (and, if applicable, sub-paragraph (1D))”;

(ch) yn is-baragraff (1F)—

- (i) yn lle “sub-paragraphs (1B) and (1C)” rhodder “sub-paragraph (1B) (and, if applicable, sub-paragraph (1D))”; a
- (ii) hepgorer paragraff (b); a

(d) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Except to the extent mentioned in sub-paragraph (2) above, the owner may not require any payment to be made (whether to himself or otherwise) in connection with the sale of the mobile home, and the assignment of the agreement, as mentioned in sub-paragraph (1) above.”.

(5) I ganfod ystyr “the court” a “the owner”, gweler adran 5(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ac i ganfod ystyr “the occupier” gweler adran 1 o Ddeddf 1983.

(5) Ym mharagraff 9 (rhoi cartref symudol yn anrheg i berson a gymeradwywyd gan y perchennog) ar ôl is-baragraff (2) ychwaneger—

“(3) The owner may not require any payment to be made (whether to himself or otherwise) in connection with the gift of the mobile home, and the assignment of the agreement, as mentioned in sub-paragraph (1) above.”.

(6) Yn lle paragraff 10 (gosod cartrefi symudol ar lain arall) rhodder—

“Re-siting of mobile home

10.—(1) The owner shall be entitled to require that the occupier’s right to station the mobile home is exercisable for any period in relation to another pitch forming part of the protected site (“the other pitch”) if (and only if)—

- (a) on the application of the owner, the court is satisfied that the other pitch is broadly comparable to the occupier’s original pitch and that it is reasonable for the mobile home to be stationed on the other pitch for that period; or
- (b) the owner needs to carry out essential repair or emergency works that can only be carried out if the mobile home is moved to the other pitch for that period, and the other pitch is broadly comparable to the occupier’s original pitch.

(2) If the owner requires the occupier to station the mobile home on the other pitch so that he can replace, or carry out repairs to, the base on which the mobile home is stationed, he must if the occupier so requires, or the court on the application of the occupier so orders, secure that the mobile home is returned to the original pitch on the completion of the replacement or repairs.

(3) The owner shall pay all the costs and expenses incurred by the occupier in connection with his mobile home being moved to and from the other pitch.

(4) In this paragraph and in paragraph 13 below, “essential repair or emergency works” means—

- (a) repairs to the base on which the mobile home is stationed;
- (b) works or repairs needed to comply with any relevant legal requirements; or
- (c) works or repairs in connection with restoration following flood, landslide or other natural disaster.

Quiet enjoyment of the mobile home

11. The occupier shall be entitled to quiet enjoyment of the mobile home together with the pitch during the continuance of the agreement, subject to paragraphs 10, 12, 13 and 14.

Owner’s right of entry to the pitch

12. The owner may enter the pitch without prior notice between the hours of 9 a.m. and 6 p.m.—

- (a) to deliver written communications, including post and notices, to the occupier; and
- (b) to read any meter for gas, electricity, water, sewerage or other services supplied by the owner.

13. The owner may enter the pitch to carry out essential repair or emergency works on giving as much notice to the occupier (whether in writing or otherwise) as is reasonably practicable in the circumstances.

14. Unless the occupier has agreed otherwise, the owner may enter the pitch for a reason other than one specified in paragraph 12 or 13 only if he has given the occupier at least 14 clear days' written notice of the date, time and reason for his visit.

15. The rights conferred by paragraphs 12 to 14 above do not extend to the mobile home.

The pitch fee

16. The pitch fee can only be changed in accordance with paragraph 17, either—

- (a) with the agreement of the occupier, or
- (b) if the court, on the application of the owner or the occupier, considers it reasonable for the pitch fee to be changed and makes an order determining the amount of the new pitch fee.

17.—(1) The pitch fee shall be reviewed annually as at the review date.

(2) At least 28 clear days before the review date the owner shall serve on the occupier a written notice setting out his proposals in respect of the new pitch fee.

(3) If the occupier agrees to the proposed new pitch fee, it shall be payable as from the review date.

(4) If the occupier does not agree to the proposed new pitch fee—

- (a) the owner may apply to the court for an order under paragraph 16(b) determining the amount of the new pitch fee;
- (b) the occupier shall continue to pay the current pitch fee to the owner until such time as the new pitch fee is agreed by the occupier or an order determining the amount of the new pitch fee is made by the court under paragraph 16(b); and
- (c) the new pitch fee shall be payable as from the review date but the occupier shall not be treated as being in arrears until the 28th day after the date on which the new pitch fee is agreed or, as the case may be, the 28th day after the date of the court order determining the amount of the new pitch fee.

(5) An application under sub-paragraph (4)(a) may be made at any time after the end of the period of 28 days beginning with the review date.

(6) Sub-paragraphs (7) to (10) apply if the owner—

- (a) has not served the notice required by sub-paragraph (2) by the time by which it was required to be served, but
- (b) at any time thereafter serves on the occupier a written notice setting out his proposals in respect of a new pitch fee.

(7) If (at any time) the occupier agrees to the proposed pitch fee, it shall be payable as from the 28th day after the date on which the owner serves the notice under sub-paragraph (6)(b).

(8) If the occupier has not agreed to the proposed pitch fee—

- (a) the owner may apply to the court for an order under paragraph 16(b) determining the amount of the new pitch fee;
- (b) the occupier shall continue to pay the current pitch fee to the owner until such time as the new pitch fee is agreed by the occupier or an order determining the amount of the new pitch fee is made by the court under paragraph 16(b); and
- (c) if the court makes such an order, the new pitch fee shall be payable as from the 28th day after the date on which the owner serves the notice under sub-paragraph (6)(b).

(9) An application under sub-paragraph (8) may be made at any time after the end of the period of 56 days beginning with the date on which the owner serves the notice under sub-paragraph (6)(b).

(10) The occupier shall not be treated as being in arrears—

- (a) where sub-paragraph (7) applies, until the 28th day after the date on which the new pitch fee is agreed; or
- (b) where sub-paragraph (8)(b) applies, until the 28th day after the date on which the new pitch fee is agreed or, as the case may be, the 28th day after the date of the court order determining the amount of the new pitch fee.

18.—(1) When determining the amount of the new pitch fee particular regard shall be had to—

- (a) any sums expended by the owner since the last review date on improvements—
 - (i) which are for the benefit of the occupiers of mobile homes on the protected site;
 - (ii) which were the subject of consultation in accordance with paragraph 22(e) and (f) below; and
 - (iii) to which a majority of the occupiers have not disagreed in writing or which, in the case of such disagreement, the court, on the application of the owner, has ordered should be taken into account when determining the amount of the new pitch fee;
- (b) any decrease in the amenity of the protected site since the last review date; and
- (c) the effect of any enactment, other than an order made under paragraph 8(2) above, which has come into force since the last review date.

(2) When calculating what constitutes a majority of the occupiers for the purposes of sub-paragraph (1)(a)(iii) each mobile home is to be taken to have only one occupier and, in the event of there being more than one occupier of a mobile home, its occupier is to be taken to be the occupier whose name first appears on the agreement.

(3) In a case where the pitch fee has not been previously reviewed, references in this paragraph to the last review date are to be read as references to the date when the agreement commenced.

19. When determining the amount of the new pitch fee, any costs incurred by the owner in connection with expanding the protected site shall not be taken into account.

20.—(1) There is a presumption that the pitch fee shall increase or decrease by a percentage which is no more than any percentage increase or decrease in the retail prices index since the last review date, unless this would be unreasonable having regard to paragraph 18(1) above.

(2) Paragraph 18(3) above applies for the purposes of this paragraph as it applies for the purposes of paragraph 18.

Occupier's obligations

21. The occupier shall—

- (a) pay the pitch fee to the owner;
- (b) pay to the owner all sums due under the agreement in respect of gas, electricity, water, sewerage or other services supplied by the owner;
- (c) keep the mobile home in a sound state of repair;
- (d) maintain—

- (i) the outside of the mobile home, and
 - (ii) the pitch, including all fences and outbuildings belonging to, or enjoyed with, it and the mobile home,
- in a clean and tidy condition; and
- (e) if requested by the owner, provide him with documentary evidence of any costs or expenses in respect of which the occupier seeks reimbursement.

Owner's obligations

22. The owner shall—

- (a) if requested by the occupier, and on payment by the occupier of a charge of not more than £30, provide accurate written details of—
 - (i) the size of the pitch and the base on which the mobile home is stationed; and
 - (ii) the location of the pitch and the base within the protected site;
 and such details must include measurements between identifiable fixed points on the protected site and the pitch and the base;
- (b) if requested by the occupier, provide (free of charge) documentary evidence in support and explanation of—
 - (i) any new pitch fee;
 - (ii) any charges for gas, electricity, water, sewerage or other services payable by the occupier to the owner under the agreement; and
 - (iii) any other charges, costs or expenses payable by the occupier to the owner under the agreement;
- (c) be responsible for repairing the base on which the mobile home is stationed and for maintaining any gas, electricity, water, sewerage or other services supplied by the owner to the pitch or to the mobile home;
- (d) maintain in a clean and tidy condition those parts of the protected site, including access ways, site boundary fences and trees, which are not the responsibility of any occupier of a mobile home stationed on the protected site;
- (e) consult the occupier about improvements to the protected site in general, and in particular about those which the owner wishes to be taken into account when determining the amount of any new pitch fee; and
- (f) consult a qualifying residents' association, if there is one, about all matters which relate to the operation and management of, or improvements to, the protected site and may affect the occupiers either directly or indirectly.

23. The owner shall not do or cause to be done anything which may adversely affect the ability of the occupier to perform his obligations under paragraph 21(c) and (d) above.

24. For the purposes of paragraph 22(e) above, to “consult” the occupier means—

- (a) to give the occupier at least 28 clear days' notice in writing of the proposed improvements which—
 - (i) describes the proposed improvements and how they will benefit the occupier in the long and short term;
 - (ii) details how the pitch fee may be affected when it is next reviewed; and
 - (iii) states when and where the occupier can make representations about the proposed improvements; and

- (b) to take into account any representations made by the occupier about the proposed improvements, in accordance with paragraph (a)(iii), before undertaking them.

25. For the purposes of paragraph 22(f) above, to “consult” a qualifying residents' association means—

- (a) to give the association at least 28 clear days' notice in writing of the matters referred to in paragraph 22(f) which—
 - (i) describes the matters and how they may affect the occupiers either directly or indirectly in the long and short term; and
 - (ii) states when and where the association can make representations about the matters; and
- (b) to take into account any representations made by the association, in accordance with paragraph (a)(ii), before proceeding with the matters.

Owner's name and address

26.—(1) The owner shall by notice inform the occupier and any qualifying residents' association of the address in England or Wales at which notices (including notices of proceedings) may be served on him by the occupier or a qualifying residents' association.

(2) If the owner fails to comply with sub-paragraph (1), then (subject to sub-paragraph (5) below) any amount otherwise due from the occupier to the owner in respect of the pitch fee shall be treated for all purposes as not being due from the occupier to the owner at any time before the owner does so comply.

(3) Where in accordance with the agreement the owner gives any written notice to the occupier or (as the case may be) a qualifying residents' association, the notice must contain the following information—

- (a) the name and address of the owner; and
 - (b) if that address is not in England or Wales, an address in England or Wales at which notices (including notices of proceedings) may be served on the owner.
- (4) Subject to sub-paragraph (5) below, where—
- (a) the occupier or a qualifying residents' association receives such a notice, but
 - (b) it does not contain the information required to be contained in it by virtue of sub-paragraph (3) above,

the notice shall be treated as not having been given until such time as the owner gives the information to the occupier or (as the case may be) the association in respect of the notice.

(5) An amount or notice within sub-paragraph (2) or (4) (as the case may be) shall not be treated as mentioned in that sub-paragraph in relation to any time when, by virtue of an order of any court or tribunal, there is in force an appointment of a receiver or manager whose functions include receiving from the occupier the pitch fee, payments for services supplied or other charges.

(6) Nothing in sub-paragraphs (3) to (5) applies to any notice containing a demand to which paragraph 27(1) below applies.

27.—(1) Where the owner makes any demand for payment by the occupier of the pitch fee, or in respect of services supplied or other charges, the demand must contain—

- (a) the name and address of the owner; and
- (b) if that address is not in England or Wales, an address in England or Wales at which notices (including notices of proceedings) may be served on the owner.

- (2) Subject to sub-paragraph (3) below, where—
- (a) the occupier receives such a demand, but
 - (b) it does not contain the information required to be contained in it by virtue of sub-paragraph (1),

the amount demanded shall be treated for all purposes as not being due from the occupier to the owner at any time before the owner gives that information to the occupier in respect of the demand.

(3) The amount demanded shall not be so treated in relation to any time when, by virtue of an order of any court or tribunal, there is in force an appointment of a receiver or manager whose functions include receiving from the occupier the pitch fee, payments for services supplied or other charges.

Qualifying residents' association

28.—(1) A residents' association is a qualifying residents' association in relation to a protected site if—

- (a) it is an association representing the occupiers of mobile homes on that site;
- (b) at least 50 per cent. of the occupiers of the mobile homes on that site are members of the association;
- (c) it is independent from the owner, who together with any agent or employee of his is excluded from membership;
- (d) subject to paragraph (c) above, membership is open to all occupiers who own a mobile home on that site;
- (e) it maintains a list of members which is open to public inspection together with the rules and constitution of the residents' association;
- (f) it has a chairman, secretary and treasurer who are elected by and from among the members;
- (g) with the exception of administrative decisions taken by the chairman, secretary and treasurer acting in their official capacities, decisions are taken by voting and there is only one vote for each mobile home; and
- (h) the owner has acknowledged in writing to the secretary that the association is a qualifying residents' association, or, in default of this, the court has so ordered.

(2) When calculating the percentage of occupiers for the purpose of sub-paragraph (1)(b) above, each mobile home shall be taken to have only one occupier and, in the event of there being more than one occupier of a mobile home, its occupier is to be taken to be the occupier whose name first appears on the agreement.

Interpretation

29. In this Schedule—

“pitch” means the land, forming part of the protected site and including any garden area, on which the occupier is entitled to station the mobile home under the terms of the agreement;

“pitch fee” means the amount which the occupier is required by the agreement to pay to the owner for the right to station the mobile home on the pitch and for use of the common areas of the protected site and their maintenance, but does not include amounts due in respect of gas, electricity, water and sewerage or other services, unless the agreement expressly provides that the pitch fee includes such amounts;

“retail prices index” means the general index (for all items) published by the Office for National Statistics or, if that index is not published for a relevant month, any substituted index or index figures published by that Office;

“review date” means the date specified in the written statement as the date on which the pitch fee will be reviewed in each year, or if no such date is specified, each anniversary of the date the agreement commenced; and

“written statement” means the written statement that the owner of the protected site is required to give to the occupier by section 1(2) of this Act.”.

Diwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983

3. Yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (materion sy'n ymwneud â pha delerau y caiff y llys eu gosod ymhlyg) hepgorer paragraffau 1, 6 a 7.

Darpariaeth drosiannol ac arbed

4.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gytundeb y mae Deddf 1983 yn gymwys iddo ac a gychwynnodd ar unrhyw adeg cyn 30 Tachwedd 2007 (“y dyddiad perthnasol”).

(2) Dim ond mewn perthynas ag adegau sy'n dod ar neu ar ôl y dyddiad perthnasol y mae'r telerau sydd ymhlyg yn y cytundeb yn rhinwedd y Gorchymyn hwn yn effeithiol.

(3) Os yw'r telerau sydd ymhlyg felly yn gwneud darpariaeth sy'n anghyson â'r canlynol—

(a) unrhyw un o delerau datganedig y cytundeb, neu

(b) unrhyw deler sydd ymhlyg yn y cytundeb yn rhinwedd adran 2(2) o Ddeddf 1983,

bydd y teler y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu (b) yn peidio â bod yn effeithiol, mewn perthynas ag adegau sy'n dod ar neu ar ôl y dyddiad perthnasol, i'r graddau y mae'n anghyson â'r telerau sydd ymhlyg yn rhinwedd y Gorchymyn hwn.

(4) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn effeithio ar—

(a) unrhyw hawl neu atebolrwydd sydd wedi cronni cyn y dyddiad perthnasol, neu unrhyw rwymedi mewn cysylltiad ag unrhyw hawl neu atebolrwydd o'r fath,

(b) unrhyw gais am derfynu'r cytundeb a wnaed cyn y dyddiad hwnnw yn rhinwedd paragraff 4, 5 neu 6 (terfynu gan berchennog) o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983,

(c) unrhyw gais am gymeradwyaeth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw yn rhinwedd paragraff 8 (gwerthu cartref symudol) neu baragraff 9 (rhoi cartref symudol yn anrheg) o'r Rhan honno o'r Atodlen honno,

(ch) swm unrhyw ffi llain newydd sy'n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod sy'n dod (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ar neu ar ôl y dyddiad perthnasol ac a bennwyd cyn y dyddiad hwnnw, neu

(d) (heb ragfarn yn erbyn cyffredinolrwydd is-baragraff (a)) unrhyw hawl i bennu ffi llain newydd sy'n daladwy—

(i) o ddyddiad cyn y dyddiad perthnasol, a

(ii) mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod sy'n dod (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ar neu ar ôl y dyddiad perthnasol,

os bydd yr hawl hwnnw'n bodoli'n union cyn y dyddiad perthnasol.

(5) Os yw'r dyddiad adolygu yn 2007 yn dod ar y dyddiad perthnasol, neu'n dod ar ôl y dyddiad hwnnw ond cyn 31 Rhagfyr 2007, yna—

(a) at ddibenion paragraff 17(2) a (5) (adolygu ffi llain) o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983, tybir mai 31 Rhagfyr 2007 fydd y dyddiad adolygu; ond

(b) bydd unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r meddiannydd gan y perchennog cyn y dyddiad perthnasol ac sy'n nodi cynigion y perchennog mewn cysylltiad â'r ffi llain newydd sy'n daladwy o'r dyddiad adolygu yn 2007 yr un mor effeithiol at ddibenion paragraff 17(2) ag un a gyflwynir ar y dyddiad perthnasol.

(6) Yn achos gwelliannau y dechreuwyd arnynt ar y dyddiad perthnasol, neu ar ôl y dyddiad hwnnw ond cyn 31 Rhagfyr 2007, caniateir rhoi ystyriaeth i unrhyw symiau a gaiff eu gwario ar welliannau o'r fath pan bennir swm ffi llain newydd yn unol â pharagraff 18 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 hyd yn oed os nad yw'r perchennog wedi cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori a geir ym mharagraff 22(e) ac (f) (rhwymedigaethau perchennog) o'r Rhan honno o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r gwelliannau.

Jocelyn Davies

O dan awdurdod y Gweinidog dros yr
Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o
Weinidogion Cymru.

27 Tachwedd 2007

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983"), a fewnosodwyd gan adran 208(1) o Ddeddf Tai 2004. Mae'n diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 1983, a ddiwygiwyd hefyd gan adran 207 o Ddeddf Tai 2004. Mae Atodlen 1 yn cynnwys telerau sydd, yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf 1983, wedi'u gosod ymhlyg mewn cytundebau y mae adran 1 o Ddeddf 1983 yn gymwys iddynt. Mae adran 1 yn gymwys i gytundebau y mae gan berson yr hawl oddi tanynt i osod cartref symudol ar safle gwarchoddedig ac i'w feddiannu'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â chytundebau ar gyfer gosod cartrefi symudol yng Nghymru.

Dyma'r Gorchymyn cyntaf i'w wneud yng Nghymru o dan adran 2A o Ddeddf 1983. Yn unol ag is-adran (4) o'r adran honno, mae erthygl 1(2) o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y telerau ychwanegol sydd ymhlyg ac y mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar eu cyfer yn cael eu gosod ymhlyg mewn cytundebau a wnaed cyn y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym, yn ogystal ag mewn cytundebau a wneir ar neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

Yn ychwanegol at fân ddiwygiadau a rhai drafftio, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 1983 fel a ganlyn:

Mae erthygl 2(2) yn diwygio paragraff 5 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r llys fod yn fodlon, cyn iddo wneud gorchymyn o dan y paragraff hwnnw'n terfynu cytundeb ar y sail nad yw'r meddiannydd yn meddiannu'r cartref symudol yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo, ei bod yn rhesymol i'r cytundeb gael ei derfynu.

Mae erthygl 2(3) yn diwygio paragraff 6 er mwyn galluogi perchenogion i wneud cais i'r llys am gael terfynu cytundeb ar unwaith os bydd y cartref symudol yn cael effaith andwyol ar amwynder y safle.

Mae erthygl 2(4) yn diwygio paragraff 8(1), sy'n gymwys pan fydd meddiannydd yn dymuno gwerthu ei gartref symudol. Mae is-baragraff (1C) newydd yn datgan na chaiff y perchennog osod amodau pan fydd yn rhoi ei gymeradwyaeth.

Mae erthygl 2(5) yn diwygio paragraff 9(1) drwy fewnosod is-baragraff (3) newydd, sy'n darparu na chaiff y perchennog fynnu unrhyw dâl wrth roi cartref symudol yn anrheg.

Mae erthygl 2(6) yn rhoi paragraff 10 newydd yn lle'r hen un ac yn mewnosod paragraffau newydd yn dwyn y Rhif au 11 i 29. Mae paragraff 10 newydd yn ymwneud â gosod cartref symudol ar lain newydd ac yn darparu mai dim ond os bydd y llys yn fodlon bod y llain arall yn gymharol debyg i'r gyntaf a'i bod yn rhesymol i'r cartref symudol gael ei osod yno, neu os bydd angen i'r cartref symudol gael ei symud i alluogi'r perchennog i wneud gwaith trwsio neu waith brys hanfodol arno, y gall perchennog fynnu bod cartref symudol yn cael ei osod ar lain arall. Os symudir y cartref symudol er mwyn galluogi'r perchennog i roi sylfaen newydd yn lle'r sylfaen y mae'r cartref symudol wedi ei osod arno, neu ei alluogi i drwsio'r sylfaen, gall y meddiannydd fynnu, a gall y llys orchymyn, bod y cartref symudol yn cael ei osod yn ôl ar y llain wreiddiol pan fydd y gwaith wedi dod i ben. Mae'n ofynnol i'r perchennog dalu'r holl gostau a threuliau a dynnir gan y meddiannydd mewn cysylltiad â symud ei gartref symudol i lain arall ac oddi yno.

Mae paragraff 11 newydd yn darparu bod gan feddiannydd yr hawl i gael mwynhad tawel o'r cartref symudol tra pery'r cytundeb. Mae paragraffau 12 i 15 newydd yn nodi hawliau'r perchennog i fynd ar y llain (ond nid i fynd i mewn i'r cartref symudol). Mae paragraffau 16 i 20 newydd yn disgrifio'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth adolygu'r ffi llain newydd a'i phennu. Mae'r rhain yn

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

darparu bod y ffi llain yn cael ei hadolygu'n flynyddol ar y dyddiad adolygu ac yn darparu ar gyfer gwneud cais i'r llys os methir â chytuno ar y ffi llain newydd. Mae paragraff 21 newydd yn disgrifio rhwymedigaethau'r meddiannydd o ran y perchennog ac mae paragraffau 22 i 25 yn disgrifio rhwymedigaethau'r perchennog o ran y meddiannydd. Er enghraifft, mae paragraff 22 yn cynnwys gofyniad i ymgynghori â'r meddiannydd ac ag unrhyw gymdeithas breswylwyr gymwys ynghylch gwelliannau i'r safle gwarchoddedig. Mae paragraffau 24 a 25 newydd yn disgrifio beth a olygir gan "consult". Mae paragraffau 26 a 27 newydd yn pennu rhwymedigaeth y perchennog o ran rhoi gwybod i'r meddiannydd ac i unrhyw gymdeithas breswylwyr gymwys beth yw ei enw a'i gyfeiriad, yn gyffredinol ac wrth gyflwyno iddynt unrhyw archiad ysgrifenedig neu hysbysiad ysgrifenedig. Mae paragraff 28 newydd yn rhestru'r meini prawf y mae'n rhaid i gymdeithas breswylwyr eu bodloni os yw i fod yn gymdeithas breswylwyr gymwys at ddibenion Atodlen 1 i Ddeddf 1983. Mae paragraff 29 newydd yn cynnwys diffiniadau o dermau allweddol.

Mae erthygl 3 yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 1 drwy hepgor paragraffau 1, 6 a 7.

Mae erthygl 4 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed. Mae erthygl 4(2) yn datgan mai dim ond mewn perthynas ag adegau sy'n dod ar neu ar ôl 30 Tachwedd 2007 y bydd y telerau sydd ymhlyg yn y Gorchymyn hwn yn effeithiol. Mae erthygl 4(3) yn darparu bod y teler anghyson i beidio â bod yn effeithiol ar ac ar ôl 30 Tachwedd 2007 os bydd unrhyw un o delerau datganedig y cytundeb neu unrhyw deler sydd ymhlyg ynddo yn rhinwedd adran 2(2) o Ddeddf 1983 yn anghyson â'r telerau sydd ymhlyg ynddo yn rhinwedd y diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Mae asesiad effaith reoleiddiol llawn o ran costau a manteision wedi ei wneud a gellir cael copi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Y Gyfarwyddiaeth Dai, Uned y Sector Preifat, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1VZ (ffôn 01685 720181) neu o HousingDirectorate@wales.gsi.gov.uk.